SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

Cylchlythyr #2 SCHTh Gogledd Cymru – 12 Awst 2022
OPCC North Wales Newsletter #2 – 12 August 2022

CHTh yn cyhoeddi Amanda Blakeman fel yr ymgeisydd gorau yn ei dyb ef i fod yn Brif Gwnstabl Gogledd Cymru

Mae Andy Dunbobbin, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, wedi cyhoeddi Amanda Blakeman, sydd ar hyn o bryd yn Ddirprwy Brif Gwnstabl Heddlu Gwent, fel yr ymgeisydd gorau yn ei dyb ef i fod yn Prif Gwnstabl newydd y rhanbarth. Ms Blakeman fydd y Prif Gwnstabl benywaidd cyntaf yn hanes Heddlu Gogledd Cymru.

Mae penodiad Amanda Blakeman i'w gadarnhau gan Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, a fydd yn digwydd ym mis Medi. Mae Paneli Heddlu a Throsedd yn gyrff craffu cynrychiolwyr lleol sy'n cadw llygad rheolaidd ar gyflawniad y Comisiynydd. Mae gofyn i'r Comisiynydd ymgynghori gyda'r Panel ar gynlluniau a chyllideb plismona, lefelau'r dreth gyngor a phenodiad Prif Gwnstabl newydd. **Darllenwch fwy yma.**

PCC announces Amanda Blakeman as preferred candidate as Chief Constable for North Wales

North Wales Police and Crime Commissioner Andy Dunbobbin has announced Amanda Blakeman, currently Deputy Chief Constable of Gwent Police as his preferred candidate as the region's new Chief Constable. Ms Blakeman will be the first female Chief Constable in the history of North Wales Police.

Amanda Blakeman's appointment is subject to confirmation by the North Wales Police and Crime Panel, which will take place in September. Police and Crime Panels are scrutiny bodies of local representatives that maintain a regular check and balance on the performance of the Commissioner. The Commissioner is required to consult with the Panel on plans and budget for policing, levels of council tax and the appointment of a new Chief Constable.
Read more here.

SCHTh yn Sioe Môn 2022

Diolch i bawb a ymwelodd â ni yn Sioe Môn yng Ngwalchmai ar ar 9 a 10 Awst. Cawsom dros fil o ymwelwyr ac roeddem yn falch o siarad am waith y swyddfa, rôl y Comisiynydd a'r blaenoriaethau yn ei Gynllun Heddlu a Throsedd. Roedd yn bleser sefyll ochr yn ochr â'n partneriaid yn y Ganolfan Cymorth i Ddioddefwyr ac adran Troseddau Seiber Heddlu Gogledd Cymru a chwrdd â sefydliadau lleol fel Tir Dewi, NFU Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

OPCC at the Anglesey Show 2022

Thanks to everyone who visited us at the Anglesey Show in Gwalchmai on 9th and 10th August. We had over one thousand visitors and we were pleased to speak about the work of the office, the role of the Commissioner and the priorities in his Police & Crime Plan. It was a pleasure to stand alongside our partners in Victim Help Centre and the North Wales Police Cyber Crime department and meet local organisations such as Tir Dewi, NFU Cymru and North Wales Fire and Rescue Service.

Arolwg Adolygiad Annibynnol o Hela

Lansiwyd yr arolwg yn ddiweddar fel rhan o'r adolygiad o hela ac rydym yn gobeithio cael cymaint o ymatebion â phosibl gan bawb sydd â diddordeb yn y pwnc.

Mae materion yn ymwneud â throseddau bywyd gwyllt yn bwysig i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a gallwch ddarllen mwy am flaenoriaethau'r Comisiynydd o ran troseddau cefn gwlad ar dudalen 4 yng **Nghynllun Heddlu a Throsedd** y Comisiynydd.

Mae rhifyn Darllen Hawdd o'r arolwg **ar gael yma.**

Independent Review of Hunting Survey

The survey being conducted as part of the review into hunting recently launched and we hope to get many responses as possible from all those with an interest in the subject.

Issues around wildlife crime are important to the Police & Crime Commissioner and you can read more about the Commissioner's priorities regarding rural crime on page 4 in the Commissioner's **Police & Crime Plan.**.

An Easy Read edition of the survey is **available here**.

Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn agor swyddfa loeren newydd yn Saltney

Mae Gorsaf Heddlu Saltney wedi ei hagor yn swyddogol gan Andy Dunbobbin, Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru, Carl Foulkes, a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Swydd Gaer, John Dwyer, fel y swyddfa loeren newydd ar gyfer Tîm Ymgyrchoedd Uned Troseddau Trefnedig Rhanbarthol y Gogledd Orllewin (NWROCU).

Bydd y ganolfan newydd ar Ystâd Heddlu Gogledd Cymru rhwng y ffin rhwng Gogledd Cymru a Swydd Gaer yn gartref i un o'r tasgluoedd troseddau difrifol a threfnedig newydd sydd wedi'u creu fel rhan o raglen cynnydd cenedlaethol yr heddlu ac yn gweld ystâd NWROCU yn parhau â'i gwaith ôl troed daearyddol o fewn ei heddluoedd cydweithredol ar draws y Gogledd Orllewin. **Darllenwch fwy yma [erthygl Saesneg]**

Police & Crime Commissioner opens new satellite office in Saltney

Saltney Police Station has officially been opened by Andy Dunbobbin, North Wales Police Chief Constable, Carl Foulkes and Cheshire Police & Crime Commissioner, John Dwyer, as the new satellite office for the North West Regional Organised Crime Unit's (NWROCU) Operations Team.

The new base on the North Wales Police Estate between the North Wales and Cheshire border will provide a home for one of the new serious and organised crime task forces which have been created as part of the national police uplift programme and sees the NWROCU estate continuing its geographical footprint within its collaborative forces across the North West. **Read more here.**

Rhybudd Cymunedol

Cofrestrwch yma ar gyfer Rhybudd Cymunedol Gogledd Cymru i dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am droseddau, digwyddiadau, apeliadau, cyngor atal trosedd a gweithgareddau plismona cyffredinol yn eich ardal. Mae cofrestru yn rhad ac am ddim ac yn gyflym a syml.

Community Alert

Register here for North Wales Community Alert to receive up to date information about crime, engagement events, appeals, prevention advice and general policing activity in your local area. Registration is completely free, quick and simple.

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU | OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

Rydych chi'n derbyn yr e-bost hwn oherwydd eich bod wedi cofrestru i dderbyn ein e-byst cylchlythyrau.
You are receiving this email as you signed up to receive our newsletter updates.

Eisiau newid sut rydych chi'n derbyn yr e-byst hyn?
Cysylltwch â ni drwy socialmedia@northwales.police.uk i ddiweddaru eich dewisiadau neu ddad-danysgrifio o'r rhestr hon.

Want to change how you receive these emails?
Contact us via socialmedia@northwales.police.uk to update your preferences or unsubscribe from this list.

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Pencadlys yr Heddlu
Glan y Don
Bae Colwyn
Conwy LL29 8AW

Office of the Police and Crime Commissioner North Wales
Police Headquarters
Glan y Don
Colwyn Bay
Conwy LL29 8AW

Gallwch ddarllen ein polisi preifatrwydd yma:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/polisi-preifatrwydd

You can read our privacy policy here:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/privacy-policy